Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Treuliau

13 Mawrth 2024

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 8 Mawrth, pan wnaethoch ofyn am y wybodaeth a ganlyn:

> *As a local constituent of Rhianon Passmore I have never seen any report or summary of expenses from her office.*
>
> *Could you provide details of her expenses please, in particular travel expenses incurred. This can be the the 2022-2023 tax year.*

Gellir gweld ein hymateb isod.

Mae'r holl dreuliau y mae Aelodau o'r Senedd yn eu hawlio yn cael eu cyhoeddi ar y **System Cyhoeddi Lwfansau**.

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

1. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech edrych arnynt.
2. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD', 'CHWILIO AELODAU', 'Aelodau Presennol, a dewiswch 'Rhianon Passmore', cliciwch 'Iawn'.
3. I ddewis math penodol o lwfans, dewiswch 'DEWIS MATH O LWFANS', yna'r math o lwfans, ac yna'r lwfans yr hoffech weld gwybodaeth amdano. (Os nad ydych yn dewis unrhyw fath o lwfans, yna bydd pob hawliad am y cyfnod hwnnw a'r Aelod yn cael ei arddangos).
4. Dewiswch 'Chwilio'

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg | We welcome correspondence in both Welsh and English.**

Cyhoeddir y treuliau a gaiff eu hawlio ar ein system lwfansau **dri mis** yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano yn cael eu cynnwys yn y **Penderfyniad.**

**Bwrdd Taliadau Annibynnol** y Senedd sy’n gwneud penderfyniadau annibynnol ar lefel y taliadau a’r system o gymorth ariannol ar gyfer yr Aelodau sy’n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau. Mae'r darpariaethau hyn wedi'u nodi yn y **Penderfyniad** a gyhoeddir gan y Bwrdd.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF